**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy’n rhagfarnu gan unrhyw un. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | YSGOL CLOCAENOG AC YSGOL CYFFYLLIOG | ***PENDERFYNWYD bod y Cabinet -***<br><br>*(a) yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;*<br><br>*(b) yn cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 ac i agor ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2014, a*<br><br>*(c) chadarnhau'r ymrwymiad i weithio tuag at ddarparu ysgol ardal newydd ar un safle yn amodol ar argaeledd cyllid cyfalaf.* |
| **6** | STRATEGAETH Y PARTH | ***PENDERFYNWYD bod y Cabinet -*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | CYHOEDDUS | *(a) yn cymeradwyo'r Strategaeth Parth Cyhoeddus ddrafft a'r Cynllun Gwella yn amodol ar gynnwys mwy o fanylion yn y Cynllun Gwella am weithgareddau gwella mewn perthynas â thipio anghyfreithlon a masnachu cwrt blaen, ac*<br><br>*(b) yn cytuno i adolygiad o'r Cynllun Gwella yn flynyddol, gyda diweddariadau ar gynnydd i gael eu darparu drwy'r broses Herio Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau perthnasol, a chyda chyfranogiad yr Aelod Arweiniol.* |
| **7** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 2 2013/14) | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.* |
| **8** | ADNEWYDDU CONTRACT – MATRICS | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno i adnewyddu'r Contract Matrics drwy fframwaith MSTAR.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi dau gytundeb i'r contractwyr a enwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|